

Crynodeb tywydd y flwyddyn 1954 **Gan DO Jones, Padog**

Dilyw o flwyddyn a fu 1954. Ni welwyd o'r blaen gymaint o lâw mewn blwyddyn. Hon fydd y flwyddyn wlybaf ymysg y blynyddoedd. Blwyddyn y ffosydd llawn, blwyddyn yr haf dau ddiwrnod. Blwyddyn heb wên yr haul, nag awyr las. Yr oedd i'r flwyddyn hon fyddin enfawr o gymylau y rhai a ddeuent yn ddiffael bob dydd gan dywallt eu cynddaredd ar yr amaethwyr druain, a chadw yr ymwelwyr o'r glannau moroedd. Blwyddyn oedd hon ac iddi rawd difethgar.

Yr oedd diwedd 1953 fel haf, y borfa yn glasu, blodau a rhosynnau yn eu gogoniant, ffrwythau yn aeddfedu diwrnodau cyntaf blwyddyn 1954, ai tybed fod hynny i'w briodoli ynglyn a fod y flwyddyn hon fel gaeaf. Bu Mai, Mehefin a Gorffennaf yn fisoedd oerion, ni welwyd rhai tebyg o fewn côf. Yr oedd bugeiliaid a chneifiwyr yn gorfod gwisgo cotiau uchaf trymion i gneifio y defaid. Ychydig o wair da a gafwyd, yr oedd y rhan fwyaf or gwair wedi bod yn ei heulog a bydylau am fisoedd; bu raid cario y rhan fwyaf or gwair yn ieuanc iawn os am ei gael o gwbl. Y mae heddiw yn ddeunawfed o Hydref ar yd allan i gyd y rhan fwyaf heb ei dori.

Hyd yn hyn bu y flwyddyn yn flwyddyn iach, ychydig o afiechydon a gafwyd ganddi. Gwelir ansicrwydd a phryder wrth wynebu y gaeaf, prinder porthiant, marchnad wael, a newyn heibio'r gornel. Hon oedd blwyddyn y clwy gwningod "Myxomatosis". Deiliodd y dderw bron i fis o flaen yr onnen. Ychydig iawn o griafol, ond y cnau fel arfer. Y mae yn seithfed ar hugain o Hydref heddiw ar tywydd yn parhau yn gynddeiriog, ystormus a thymhestlog, llawer o wair hyd y caeau ar bydylau yn anharddu y fro. Golygfa gyffredin y dyddiau hyn yw gweled ysgyfarnogod yn bwyta ac yn llechu yn y sypiau yd ar brain yn gwledda ar dop y sypiau.

Hen flwyddyn oer ddrwg ddigalon,
Mae gwae yn ei rhagolygion,
Ysgubor wâg, a brain tewion.

Parhau yn ei digllonedd y mae y flwyddyn ofnadwy hon, y mae heddiw yn Sed o Dachwedd ar glaw yn pistyllio i lawr, mwy na hanner yr yd heb ei dori. Clywais droeon y geiriau canlynol gan hen ffermwyr y fro sef," mae hi yn siwr o ddod, a cael y cynhaeaf welsom ni rioed", petasai y nhw yn fyw heddiw cawsant weld peth arall.

Ia blwyddyn gofiadwy a fydd 1954. Aeth gwair Dylasu Uchaf ar dân yn y gadlas , y ddau gwlas wedi twmo, carwyd y gwair allan i'r caeau, yn ei ôl, ai adael i'r glaw ei ddifrodi. Heddiw yw y 10fed o Dachwedd ar cenlli yn parhau, lein y tren o Betws y Coed i Lanrwst o dan ddŵr, y dwr yn gorlifo tai a phentrefydd Sir Gaernarfon, ffyrdd cylch Llanrwst o dan lathen o ddwr. Tachwedd y 27ed, hyrddwynt ysgubol a glaw parhaus trwm. Tachwedd y 30ed, corwynt mawr yn taflu coed i lawr, chwalfa fawr ym mhob man.

D.O.Jones
(gyda diolch i'r teulu)